**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Rhagfyr 2010**

**CYLLIDEB DDRAFFT 2011-12**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno cyllideb ddrafft 2011-2012 i'r Aelodau ei chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthnasedd â chyllideb ddrafft 2011-2012, rhagolygon 2012-13 a 2013-14, ac mae'r papurau ynghlwm yn cyflwyno:

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A);

(ii) yr arbedion dichonadwy (Atodiad B);

(iii) y cyfraniadau dros dro gofynnol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol (Atodiad C);

(iv) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad D).

3 Nid yw'r cyflwyniad o'r Gyllideb Gwerth Gorau, Strategaeth Flynyddol Rheolaeth y Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus wedi eu cynnwys ac fe'i cyflwynir hwy i'r Aelodau yn hwyrach.

## CEFNDIR

4 Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf ar y gyllideb gerbron y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf ac ynddo fe amlinellwyd y pwysau ariannol a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf o ganlyniad i'r amcanion ariannol a fanylir yng nghyllideb frys Llywodraeth

newydd y DU. Roedd yr adroddiad yn awgrymu y byddai gofyn ar i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer gostyngiad o 3% flwyddyn i flwyddyn ac oherwydd yr ansicrwydd yn lefel y gronfa fe sefydlwyd gweithgor i ystyried yr holl opsiynau ariannol a gwasanaethu posib. Cafwyd adroddiadau pellach ym mis Medi a Thachwedd a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa genedlaethol ac a rannodd fanylion am waith y gweithgor. Yn dilyn sawl cyfarfod gofynnodd y gweithgor ar i'r swyddogion gynhyrchu llawlyfr 'Opsiynau Cyllid' fel y gallai pob Aelod ei adolygu cyn Cyfarfod Arbennig yr Awdurdod Tân ac Achub ar 10 Rhagfyr 2010.

5 Rhoddodd yr adroddiad a gyflwynwyd yn ystod cyfarfod arbennig yr Awdurdod arolwg i'r Aelodau o'r sefyllfa ariannol yng Nghymru gan ymofyn penderfyniad ar lefel y gostyngiad yng nghyllideb yr Awdurdod dros y tair blynedd nesaf a chytuno ar strategaeth i gyflawni'r gostyngiadau.

**SETLIADAU GRANT CYNNAL REFENIW DROS DRO**

6 Ariannir Awdurdodau Tân ac Achub Cymru drwy gyfraniadau gan yr Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth y maent yn ei gwasanaethu. Prif gronfa'r Awdurdodau Lleol yw'r Grant Cynnal Refeniw a ddyrannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cronfa'r Awdurdodau Tân wedi ei chynnwys yn y setliad hwn. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yng Ngogledd Cymru wedi cael gostyngiad cyllideb o 1.6%, ar gyfartaledd, yn eu setliad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2011/12. Mae'n debygol y bydd y setliadau yn y blynyddoedd sydd i ddod ychydig yn well a disgwylir cynnydd o 0.1% yn 2012/13 a 1.1% yn 2013/14.

**OPSIYNAU CYLLID**

7 Man cychwyn y broses o bennu cyllideb oedd ystyried unrhyw gynnydd yr oeddem yn ymwybodol ohono a fyddai'n digwydd yn ystod y tair blynedd yr oeddem yn cynllunio ar ei chyfer. Roedd y cynnydd hwn yn cynnwys cyllid refeniw'r rhaglen cyfalaf yn seiliedig ar arian yr oedd eisoes wedi ei neilltuo a chynnydd chwyddiannol anocheladwy. Ni chafodd codiadau cyflog ar gyfer 2011/12 a 2012/13 eu cynnwys. Effaith yr ymrwymiadau hyn oedd cynyddu'r gyllideb gan 2% yn ystod y 2 flynedd gyntaf a chan 2.5% yn ystod y drydedd. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu o'r ffaith y byddai'n rhaid gwneud arbedion ar gyfer ariannu'r ymrwymiadau hyn hyd yn oed pe byddant yn cyflwyno cyllideb ddigyfnewid.

8 Yn dilyn argymhellion gan Aelodau'r gweithgor a'r Panel Gweithredol cyflwynwyd sawl opsiwn gerbron yr Awdurdod ar gyfer pennu lefel y gostyngiad yng nghyllideb yr Awdurdod ar gyfer y 3 mlynedd nesaf. Roedd yr opsiynau yn cynnwys cyllideb ddigyfnewid; cyllideb a fyddai'n cyd-fynd â setliad y Grant Cynnal Refeniw; cyllideb sy'n golygu bydd mwyafrif yr arbedion yn cael eu gwneud yn y drydedd flwyddyn; a chyllideb a fyddai'n rhannu'r arbedion yn gyfartal. Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar strategaeth i gyd-fynd â'r gostyngiadau cyllidebol o becyn o opsiynau a gytunwyd arnynt yn y llawlyfr 'Opsiynau ar gyfer gostwng y Gyllideb'.

9 Yr opsiwn mwyaf ffafriol oedd rhannu'r arbedion dros 3 mlynedd a fyddai'n golygu gostyngiad o 0.5% i'r gyllideb ym mlynyddoedd 1 a 2 a chyllideb ddigyfnewid ym mlwyddyn 3. Yr arbedion ariannol gwirioneddol sydd eu hangen dros y 3 mlynedd yw 2.45 miliwn, gostyngiad o 7.5%.

10 Ceir dadansoddiad o'r gyllideb refeniw yn Atodiad A, a cheir enghreifftiau o'r arbedion sydd eu hangen er mwyn cwrdd â'r gostyngiadau yn Atodiad B.

## STRATEGAETH GYLLIDEBOL

11 Cyflwynwyd enghreifftiau o 'Becynnau Opsiwn Dichonadwy' i Aelodau fel y gellid penderfynu ar strategaeth i gwrdd â'r arbedion gofynnol.

## Blwyddyn 1 - 2011/12

12 Nodir yr opsiynau sydd ar gael er mwyn cwrdd â'r arbedion yn y flwyddyn gyntaf yn Atodiad B a chytunodd yr Aelodau yn amodol mai hon fyddai'r strategaeth a chai ei dilyn. Mae cyfran helaeth yr arbedion yn cael eu cyflawni drwy Adolygiad o Gyflenwad Swyddogion, prosiect cyfredol y cytunodd yr Aelodau arno eisoes. Arbedion eraill y cytunwyd arnynt oedd gostwng amryfal gyllidebau; rhewi rhai swyddi Gwasanaethau Cefnogol; rhewi swyddi Diogelwch Tân Cymunedol; peidio ag ariannu digwyddiad blynyddol Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc.

**Blwyddyn 2 a 3 - 2012/13  2013/14**

13 Er mwyn cwrdd ag arbedion gofynnol blynyddoedd 2 a 3 mae'n rhaid i Aelodau gytuno ar strategaeth i'w dilyn fel y gall Swyddogion gynllunio i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r arbedion hyn yn y cyfnod penodedig. Yn dilyn y cyfarfod Arbennig cytunodd yr Aelodau yn amodol fod angen toriadau o holl feysydd y Gwasanaeth ond y byddai cyfran helaeth yr arbedion arfaethedig dros y 2 flynedd nesaf, £1 miliwn, yn dod o newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth. Bu i'r Aelodau ystyried yr arbedion gofynnol ac unrhyw newidiadau yn lefel y ddarpariaeth. Yr opsiwn a fyddai'n cynnig mwy o arbedion gan sicrhau nad oedd newid yn narpariaeth y gwasanaethau tân oedd 'Newidiadau i'r System Ddyletswydd'. Fodd bynnag, hysbyswyd yr Aelodau y gallai hyn fod yn opsiwn anodd gan y byddai'n golygu fod angen lleihau nifer y swyddi ar gyfer diffoddwyr tân. Nid yw'n bosib lleihau'r niferoedd drwy wastraff naturiol yn unig. Mae'n rhaid i Aelodau hefyd gytuno ar arbedion eraill er mwyn cwrdd â thargedau ym mlynyddoedd 2 a 3.

**CYFRANIADAU**

14 Mae Atodiad C yn nodi'r cyfraniadau amodol gan awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2011-12 .

**RHAGLEN CYFALAF**

15 Manylir y rhaglen cyfalaf ddrafft 2011-12 yn Atodiad D sef cyfanswm o £3.8 miliwn i'w wario ar gynlluniau oedd eisoes wedi eu cymeradwyo un ai yn 2009-10 neu 2010-11 sef cyfanswm o £5.7m. Hysbyswyd y Panel Gweithredol o'r cynlluniau adeiladu sylweddol ar 15 Tachwedd 2010. Mae'r cynllun cyfredol i brynu peiriannau newydd a cherbydau cynorthwyol fel rhan o'r rhaglen i ddisodli cerbydau yn parhau. Fodd bynnag, rhagwelir na fydd modd cwrdd â'r £2.9 miliwn a neilltuwyd ar gyfer prynu Tendrau Dŵr yn 2010/11 gan nad oedd modd prynu'r rhain cyn y flwyddyn ariannol newydd, bydd y swm felly'n cael ei drosglwyddo ymlaen i'r swm a amcangyfrifir ar gyfer 2011/12. Yn 2010-11 amcangyfrifir y bydd gwariant cyfalaf o £5 miliwn a chynigir bod hyn yn cael ei ariannu trwy fenthyca.

## ARGYMHELLION

16 Argymhellir fod:

(i) Aelodau yn cymeradwyo cyllideb ddrafft 2011-12 ac yn cytuno ar lefel y gostyngiadau i'r gyllideb refeniw am y tair blwyddyn ariannol nesaf;

(ii) Aelodau yn cymeradwyo'r strategaeth i'w dilyn er mwyn cwrdd â'r arbedion yn 2011/12;

(iii) Aelodau yn cymeradwyo'r strategaeth i'w dilyn er mwyn cwrdd â'r arbedion yn 2012/13 a 2013/14;

(iv) Yr awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu hysbysu am y cyfraniadau amodol sydd eu hangen yn 2011-12;

(v) Y rhaglen cyfalaf ddrafft ar gyfer 2011-12 a dulliau cysylltiedig o ariannu yn cael eu cymeradwyo;

(vi) Y pwerau i newid lefel y gyllideb yn cael eu dirprwyo i'r Panel Gweithredol, os bydd gofyn am unrhyw newidiadau cyn 15 Chwefror 2010.